

Ieir Hapus


Cyflwyniad

Bwriedir i'r adnoddau hyn ddarparu syniadau ar gyfer gwersi gwyddoniaeth, dylunio a thechnoleg a llythrennedd. Mae'r syniadau a'r deunyddiau yn addas ar gyfer plant Y Cyfnod Sylfaen a CA2, er bydd angen ychydig o wahaniaethu ar gyfer y plant ieuengaf. Yn bennaf, ni fydd y plant ieuengaf yn medru dilyn y cyfarwyddiadau ar y taflenni disgyblion, ond dylent ymdopi gyda'r gweithgareddau ymarferol gyda chymorth.

Mae'r adnoddau yn canolbwyntio ar gadw ieir er mwyn cynhyrchu wyau.

Trosolwg o'r prosiect

Adran	Amser	Disgrifiad
1: Prif gyflwyniad	10-15 mun	Cyflwyniad yn disgrifio'r mathau gwahanol o ffermydd wyau a'r hyn sydd angen ar ieir y ffynnu.
2: Gwaith ymarferol	20-120 mun	Mae yna ddau weithgaredd ymarferol sy'n gysylltiedig â chadw ieir. Mae'r rhain, ynghyd â'r cyflwyniad, yn darparu gwybodaeth fydd yn ddefnyddiol i'r plant wrth iddynt ddylunio amgylchfyd ar gyfer cytiad o 100 o ieir dodwy. Gweithgaredd 1: Yn y gweithgaredd hwn mae'r plant yn dysgu am nodweddion da porthwyr ieir. Byddant yn creu a phrofi porthwr ieir gan ddefnyddio deunyddiau crefft. Mae'r porthwr yn modelu bwyd ieir go iawn gan ddefnyddio reis. Mae reis amrwd yn niweidio ieir oherwydd ei fod yn chwyddo yn eu stumogau, byddwch yn siŵr o ddweud hyn wrth y plant. Gweithgaredd 2: Yn y gweithgaredd hwn, mae'r plant yn dysgu am gyflenwyr dŵr ieir. Byddant yn creu ac yn profi cyflenwr dŵr gan ddefnyddio gwydr a dysgl fâs.



Nodiadau ar y cyflwyniadau

These notes also appear on the PowerPoint 'notes' pages.

Sleid 2: Mathau o ffermydd wyau	Er mwyn galw wyau yn 'wyau maes', mae'n rhaid i'r ieir gael mynediad i'r awyr agored. Mae'r sied arferol yn gartref i 16,000 aderyn a maint y cytiad mwyaf yw 4000 aderyn. Mae'r llun ar waelod chwith y sleid yn ddarlun delfrydedig o ieir rhydd. Mae'r drysau bychain sydd yn gadael yr ieir allan i'r ardal awyr agored yn cael eu hagor yn y dydd a'u cau yn y nos. Cynhyrchir wyau 'sgubor gan ieir sydd yn aros dan do ond yn cael rhyddid i grwydro'r ysgubor. Mae ieir mewn cewyll nythfa yn aros yn eu cewyll. Rydym hefyd yn galw cewyll nythfa yn gewyll cyfoethog ac maent yn welliant ar yr hen gewyll batri sydd bellach wedi eu gwahardd. Maent yn darparu nodweddion cyfoethog megis clwydi, blychau nythu ac ardaloedd crafu. Mae angen golau yn y siediau yn ystod y dydd ac mae angen diffodd y golau dros nos. Gelwir y rhain yn gewyll nythfa oherwydd bod yr ieir fel arfer yn cael eu cadw mewn nythfeydd o 60-80 aderyn.
Sleid 3: Beth sydd angen ar ieir?	Mae gan ieir anghenion tebyg iawn i'r rhan fwyaf o anifeiliaid (gan gynnwys bodau dynol). Maent angen lloches rhag y tywydd ac rhag ysglyfaethwyr, lle oddi fewn i'r lloches a thu allan, dŵr a bwyd sydd yn cynnwys y maetholion cywir.
Sleid 4: Gofynion ar gyfer sied ieir	Mae pob esboniad ar y sleid
Sleid 5: Gofynion ar gyfer buarth ieir	Diben buarth ieir yw er mwyn cau'r ieir i mewn tra'n rhoi lle iddynt symud o gwmpas a fforio. Mae hyn yn atal iddynt grwydro yn rhy bell a chael eu lladd gan ysglyfaethwyr megis llwynogod. Mae hefyd yn atal iddynt ddodwy mewn mannau 'dirgel'.
Sleid 6: Bwyd a diod	Mae'n rhaid i ddiet ieir gynnwys y maetholion, fitaminau a mwnau cywir. Mae grean yn helpu i'r iâr dreulio'i bwyd. Mae cregyn o'r môr yn cynnwys carbonad calsiwm, sydd yn angenrheidiol er mwyn creu plisgyn wyau. Mae angen diet gyda llawer o brotein a llawer o ddŵr ar ieir sy'n cynhyrchu wyau. Mae cafnau bwyd ieir awtomatig wedi eu dylunio i roi llif cyson o fwyd i'r ieir, ond heb gadael iddo fynd yn wastraff. Mae cafnau dŵr awtomatig hefyd wedi eu dylunio i roi llif cyson o ddŵr, ond heb gadael iddo fynd yn wastraff.
Sleid 7: Gallwch chi ddylunio sied ieir sydd yn cadw ieir yn hapus a diogel?	Llun i ysgogi'r plant i feddwl am sut y gallai sied ieir ar gyfer ieir hapus edrych.



Y gweithgareddau

Gweithgaredd 1: Porthwyr ieir

Offer a deunyddiau defnyddiol:

Taflenni disgyblion, dysgl fâs (megis dysgl petri) neu botyn hufen neu iogwrt gyda gwaelod oddeutu 8-10cm o ddiamedr, tiwb cardfwrdd o rholyn papur cegin, glud PVA neu gwn glud poeth, siswrn, pren coctel, cordyn neu edau, reis.

Trosolwg o'r gweithgaredd:

Yn y gweithgaredd hwn, bydd y plant yn dysgu pa nodweddion sydd yn gwneud porthwr ieir safonol, ac yna yn creu model o borthwr ieir gan ddefnyddio deunyddiau crefft, cyn ei brofi. Byddwn yn defnyddio reis i fodelu bwyd ieir go iawn. Mae reis amrwd yn niweidio ieir oherwydd ei fod yn chwyddo yn eu stumogau, byddwch yn siŵr o ddweud hyn wrth y plant.

Mae angen i'r ddysgl fâs fod oddeutu 1.5 i 2cm o ddyfnder. Efallai bydd angen cymorth ar y plant wrth dorri'r tiwb cardfwrdd a'r potyn hufen/iogwrt.

Gallech gynnig gweithgaredd ymestynnol gan osod her i'r plant wella ar ddyluniad y porthwr, ac yna creu prototeip o'u porthwr gwell

Canllawiau diogelwch

Ni ddylai'r plant ddefnyddio'r gwn glud poeth, oherwydd ei fod yn defnyddio plastig wedi ei doddi ar dymheredd o tua 200°C ac mae'n medru achosi llosg drwg. Bydd angen cymorth ar blant ifanc i dorri potiau hufen neu iogwrt.

Gweithgaredd 2: Cyflenwyr dŵr

Offer a deunyddiau defnyddiol:

Taflenni disgyblion, gwydr neu bot jam cul, dysgl fâs (megis dysgl petri) neu photyn hufen neu iogwrt gyda gwaelod oddeutu 8cm o ddiamedr, ategion – gallech ddefnyddio botymau mawrion neu geiniogau, piped diferu, clytiau i sychu unrhyw ddŵr a gollir.

Trosolwg o'r gweithgaredd:

Yn y gweithgaredd hwn, bydd y plant yn dysgu am gyflenwyr dŵr. Byddant yn creu a phrofi model o gyflenwr dŵr gan ddefnyddio gwydr a dysgl.

Gallech gynnig gweithgaredd ymestynnol gan osod her i'r plant wella ar ddyluniad y cyflenwr dŵr, ac yna creu prototeip o'u gwelliant.




Canllawiau diogelwch


Mae gwydrau o wydr yn hawdd eu torri a dylid rhybuddio'r plant i beidio â chlirio gwydr sydd wedi torri. Efallai byddwch yn dymuno defnyddio gwydrau neu ficeri plastig os ydynt ar gael. Mae angen i'r ddysgl fod 3cm yn lletach na'r gwydr. Bydd angen cymorth ar blant ifanc wrth dorri'r potiau hufen neu iogwrt.

Cysylltiadau posib â Chwricwlwm Cymru

Cyfnod / Maes Dysgu	Adran	Datganiad Cwricwlwm Cymru
Y Cyfnod Sylfaen: Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd	Ystod, Fi fy hun a phethau byw eraill	- gweithio ar eu pen eu hunain, mewn parau ac mewn grwpiau bach. - arsylwi gwahaniaethau rhwng anifeiliaid a phlanhigion, rhwng gwahanol anifeiliaid a rhwng gwahanol blanhigion er mwyn eu grwpio - dysgu am y synhwyrâu y mae pobl ac anifeiliaid eraill yn meddu arnynt ac yn eu defnyddio i'w galluogi i fod yn ymwybodol o'r byd sydd o'u cwmpas - adnabod rhai anifeiliaid a phlanhigion sy'n byw yn yr amgylchedd a geir yn yr awyr agored - adnabod yr effeithiau y mae'r gwahanol dymhorau'n eu cael ar rai anifeiliaid a phlanhigion
	Sgiliau	- archwilio ac arbrofi - meddwl am gwestiynau, gofyn y cwestiynau hynny a gwrando ar yr atebion - gwrando ar syniadau pobl eraill - meddwl am beth allai ddigwydd pe bai... - Meddwl yn greadigol a dychmygus - meddwl am sut y byddant yn gwybod bod rhywbeth wedi gweithio - cyfleu arsylwadau a mesuriadau - disgrifio'r hyn y maent wedi'i ddarganfod a chynnig esboniadau syml - mynegi eu barn a'u teimladau eu hunain, a gwneud penderfyniadau gan ystyried safbwyntiau pobl eraill - myfrio ynghylch eu gwaith eu hunain a gwaith pobl eraill, a gwerthuso'r gwaith hwnnw.
Y Cyfnod Sylfaen: Datblygiad Mathemategol	Derbyn	- adnabod camau i gwblhau'r dasg neu gyrraedd datrysiaid - defnyddio siapiau 2D a 3D i greu modelau a lluniau - defnyddio'r cymariaethau canlynol yn uniongyrchol: hyd, uchder a phellter, e.e. hirach/byrrach na; pwysau/mäs, e.e. trymach/ysgafnach na; cynhwysedd, e.e. yn dal mwy/llai na
	Blwyddyn 1	- defnyddio siapiau 2D a 3D i greu modelau a lluniau - defnyddio unedau ansafonol i fesur: hyd, uchder a phellter, pwysau/mäs, cynhwysedd - defnyddio siapiau 2D a 3D a disgrifio sut maent yn ffitio gyda'i gilydd
	Blwyddyn 2	- defnyddio unedau safonol i fesur: hyd, uchder a phellter: metrau, hanner metrau neu gentimetrau; pwysau/mäs: cilogramau neu bwysau 10 gram; cynhwysedd: litrau - creu modelau cynyddol gymhleth neu gywir gyda siapiau 3D a brithweithio siapiau 2D



CA2: Gwyddoniaeth	Sgiliau, Datblygu	Bydd y disgyblion yn dilyn yr ymagwedd/dull arfaethedig, yn ei adolygu pan fydd angen, a phan fo'n briodol yn: defnyddio cyfarpar ac offer yn gywir ac yn ddiogel; gwneud arsylwadau gofalus a mesuriadau manwl gywir, gan ddefnyddio offer digidol a TGCh o bryd i'w gilydd; gwirio arsylwadau a mesuriadau trwy eu hailadrodd er mwyn casglu data dibynadwy; gwneud cymariaethau ac adnabod a disgrifio tueddiadau neu batrymau mewn data a gwybodaeth; defnyddio peth gwybodaeth flaenorol i esbonio'r cysylltiadau rhwng achos ac effaith wrth ddod i gasgliadau
	Myfrio	Bydd y disgyblion yn meddwl am yr hyn a wnaethant er mwyn cadarnhau dysgu a throsglwyddo sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth i gyd-destunau eraill trwy: ddechrau gwerthuso canlyniadau yn erbyn meini prawf llwyddiant; penderfynu a oedd yr ymagwedd/dull yn llwyddiannus; disgrifio unrhyw newidiadau a wnaed i'r ymagwedd/dull arfaethedig; awgrymu sut y gellid bod wedi gwella'r ymagwedd/dull; disgrifio sut maen nhw wedi dysgu ac adnabod y dulliau oedd wedi gweithio orau; cysylltu'r dysgu â sefyllfaoedd tebyg, yn yr ysgol ac mewn mannau eraill.
CA2: Dylunio a thechnoleg	Sgiliau, Dylunio	Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion: ddefnyddio ystod o ffynonellau gwybodaeth i gynhyrchu syniadau am gynhyrchion ymchwilio i sut y mae cynhyrchion sy'n bodoli eisoes yn edrych ac yn gweithio, a hynny er mwyn cael syniadau ar gyfer eu cynhyrchion eu hunain, e.e. archwilio ystod o gynhyrchion sy'n gysylltiedig â'u tasg, tegau, arferion bwyta'n iach; datblygu manyleb/rysâit syml ar gyfer eu cynhyrchion gan nodi'u bwriadau a'u dull gweithredu; arddangos eu gallu i feddwl yn greadigol wrth ystyried a chofnodi atebion i'r problemau sy'n codi yn ystod eu gwaith dylunio a gwneud, e.e. sylweddoli y byddai'n gynt ac yn haws defnyddio defnyddiau, cydrannau a chynhwysion parod yn hytrach na gwneud rhai eu hunain; datblygu a chyfleu eu syniadau dylunio mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan ddefnyddio TGCh a modelau lle bo hynny'n briodol; ystyried diogelwch, dibynadwyaeth a chynaliadwyedd eu gweithgareddau/cynhyrchion, e.e. ystyried sut y gallai defnyddio neu gamddefnyddio'u cynhyrchion achosi anaf, difrod neu afiechyd; gwerthuso'u syniadau dylunio wrth iddynt ddatblygu, gan ystyried anghenion y defnyddiwr.
	Gwneud	Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion: weithio'n unol â'u manyleb/rysâit i wneud cynhyrchion; dewis defnyddiau, cynhwysion, cyfarpar, offer a thechnegau priodol o blith ystod o eitemau o'r fath sydd ar gael ar eu cyfer; mesur, marcio, torri, siapio, uno, pwyso a chymysgu ystod o ddefnyddiau a chynhwysion, gan ddefnyddio offer, cyfarpar a thechnegau priodol; dod o hyd i ffyrdd eraill o wneud rhywbeth os bydd yr ymgais gyntaf yn methu; defnyddio gorffeniadau priodol ar gyfer eu cynhyrchion



Dolenni defnyddiol

Y British Egg Industry Council <http://www.britisheggindustryCouncil.co.uk/about-us/>

Gwybodaeth ar wyau – pob dim o newyddion ar faetheg ac iechyd i hanes cynllun y 'British Lion' a mwy (gwefan Saesneg) <https://www.egginfo.co.uk/>

RSPCA <https://www.rspca.org.uk/adviceandwelfare/farm/layinghens/farming>

